



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 Rhif 738 (Cy. 141)

2019 No. 738 (W. 141)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

HADAU, CYMRU

SEEDS, WALES

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

The Seed Potatoes (Wales)
(Amendment) (EU Exit)
Regulations 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 (O.S. 2016/106 Cy. 52).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations make amendments to the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 (S.I. 2016/106 W.52).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2019 Rhif 738 (Cy. 141)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaed 6pm ar 26 Mawrth 2019

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliadau 3 a 4, i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Daw rheoliadau 3 a 4 i rym ar y diwrnod sydd flwyddyn ar ôl y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2019 No. 738 (W. 141)

**EXITING THE EUROPEAN
UNION, WALES**

SEEDS, WALES

**The Seed Potatoes (Wales)
(Amendment) (EU Exit)
Regulations 2019**

Made 6pm on 26 March 2019

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2, and paragraph 21 of Schedule 7, to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1), make the following Regulations.

In accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 a draft of this instrument has been laid before the National Assembly for Wales and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Seed Potatoes (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019.

(2) These Regulations, apart from regulations 3 and 4, come into force on exit day.

(3) Regulations 3 and 4 come into force on the day one year after the day on which exit day falls.

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) o'r Ddeddf honno i gael y diffiniad o "devolved authority".

(1) 2018 c.16. See section 20(1) of that Act for the definition of "devolved authority".

Diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

2.—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) yn y diffiniad o “tatws hadyd sylfaenol”, ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o “yn unol” hyd at y diwedd rhodder—

“, yn datgan bod y tatws wedi eu hardystio'n datws hadyd sylfaenol a'r radd, yn unol ag—

(i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;

(ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith paragraffau 2, 5, 7, 9, 10 ac 11 o Ran 1 o Atodlen 2;

(iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 13(1)(a) o'r Gyfarwyddeb;”;

(b) yn y diffiniad o “categori” hepgorer y geiriau “yn unol â chytundeb masnach y Swistir”;

(c) yn y diffiniad o “ardystio” ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o “yn unol” hyd at y diwedd rhodder—

“yn unol ag—

(i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;

(ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith rheoliad 10(2) a (3);

(iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, y Gyfarwyddeb;”;

Amendment to the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 consequent on the withdrawal of the United Kingdom from the European Union

2.—(1) The Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 are amended as follows.

(2) In regulation 2—

(a) in the definition of “basic seed potatoes”, in paragraph (b), for the words from “in accordance” to the end substitute—

“, stating that the potatoes were certified as basic seed potatoes and the grade, in accordance with—

(i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;

(ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to paragraphs 2, 5, 7, 9, 10 and 11 of Part 1 of Schedule 2;

(iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 13(1)(a) of the Directive;”;

(b) in the definition of “category” omit the words “in accordance with the Swiss trade agreement”;

(c) in the definition of “certification” in paragraph (b), for the words from “in accordance” to the end substitute—

“in accordance with—

(i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;

(ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to regulation 10(2) and (3);

(iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, the Directive;”;

- (d) yn y diffiniad o “tatws hadyd ardystiedig” ym mharagraff (b), yn lle’r geiriau o “yn unol” hyd at y diwedd rhodder—
- “, yn datgan bod y tatws wedi eu hardystio’n datws hadyd ardystiedig a’r radd, yn unol ag—
- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith paragraffau 3, 5, 7, 9, 10 ac 11 o Atodlen 2;
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 13(1)(a) o’r Gyfarwyddeb;”;
- (e) ar ôl y diffiniad o “tatws hadyd sylfaenol” mewnosoder—
- “ystyr “Tiriogaeth Ddibynnol y Goron” (“*Crown Dependency*”) yw Ynys Manaw ac unrhyw un o Ynsoedd y Sianel;
- (f) ar ôl y diffiniad o “pecyn neu gynhwysydd” mewnosoder—
- “ystyr “y Rheoliadau GMO” (“*the GMO Regulations*”) yw—
- (a) o ran Lloegr, Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) 2002(1);
- (b) o ran Cymru, Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002(2);
- (c) o ran yr Alban, Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Yr Alban) 2002(3);
- (d) o ran Gogledd Iwerddon, Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Gogledd Iwerddon) 2003(4);”;
- (g) yn lle’r diffiniad o “gradd” rhodder—
- “mae “gradd” (“*grade*”) yn cynnwys gradd y Deyrnas Unedig;”;
- (d) in the definition of “certified seed potatoes” in paragraph (b) for the words from “in accordance” to the end substitute—
- “, stating that the potatoes were certified as certified seed potatoes and the grade, in accordance with—
- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to paragraphs 3, 5, 7, 9, 10 and 11 of Schedule 2;
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 13(1)(a) of the Directive;”;
- (e) after the definition of “Common Catalogue” insert—
- ““Crown Dependency” (“*Tiriogaeth Ddibynnol y Goron*”) means the Isle of Man and any of the Channel Islands;
- (f) after the definition of “genetically modified” insert—
- ““the GMO regulations” (“*y Rheoliadau GMO*”) means—
- (a) in relation to England, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) Regulations 2002(1);
- (b) in relation to Wales, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) Regulations 2002(2);
- (c) in relation to Scotland, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Scotland) Regulations 2002(3);
- (d) in relation to Northern Ireland, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) Regulations (Northern Ireland) 2003(4);”;
- (g) for the definition of “grade” substitute—
- ““grade” (“*mae “gradd*”) includes the United Kingdom grade;”;

(1) O.S. 2002/2443, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/2411, 2018/575.
 (2) O.S. 2002/3188 (Cy. 304), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2759, 2013/755 (Cy. 90).
 (3) O.S.A. 2002/541, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2004/439, 2015/100.
 (4) Rh. St. 2003 Rhif 167.

(1) S.I. 2002/2443, amended by S.I. 2004/2411, 2018/575.
 (2) S.I. 2002/3188 (W. 304), amended by S.I. 2005/2759, 2013/755 (W. 90).
 (3) S.S.I. 2002/541, amended by S.S.I. 2004/439, 2015/100.
 (4) S.R. 2003 No. 167.

- (h) yn lle'r diffiniad o "Rhestr Genedlaethol" rhodder—
 "ystyr "Rhestr Genedlaethol" (*"National List"*) yw rhestr o amrywogaethau o rywogaethau tatws sydd wedi ei llunio a'i chyhoeddi yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol;"
- (i) yn y diffiniad o "dogfen swyddogol" ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o "gofynion" hyd at y diwedd rhodder—
 "gofynion—
 (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
 (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith gofynion Rhan 2 o Atodlen 2;
 (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 13(1)(b) o'r Gyfarwyddeb;"
- (j) yn y diffiniad o "label swyddogol" ym mharagraff (b), hepgorer "gofynion" ac yn lle'r geiriau o "Erthygl 13(1)(a)" hyd at y diwedd rhodder—
 "ofynion—
 (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
 (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith gofynion Rhan 1 o Atodlen 2;
 (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 13(1)(a) neu 18(f) o'r Gyfarwyddeb neu Erthygl 9 o'r Penderfyniad;"
- (k) yn y diffiniad o "tatws hadyd cyn-sylfaenol", ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o "yn unol" hyd at y diwedd rhodder—
 ", yn datgan bod y tatws wedi eu hardystio'n datws hadyd cyn-sylfaenol a'r radd, yn unol ag—
- (h) for the definition of "National List" substitute—
 "National List" (*"Rhestr Genedlaethol"*) means a list of varieties of potato species prepared and published in accordance with regulation 3 of the National Lists Regulations;"
- (i) in the definition of "official document", in paragraph (b), for the words from "requirements of" to the end substitute—
 "requirements of—
 (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
 (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to the requirements of Part 2 of Schedule 2;
 (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 13(1)(b) of the Directive;"
- (j) in the definition of "official label" in paragraph (b), for the words from "requirements of" to the end substitute—
 "requirements of—
 (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
 (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to the requirements of Part 1 of Schedule 2;
 (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 13(1)(a) or 18(f) of the Directive or Article 9 of the Decision;"
- (k) in the definition of "pre-basic seed potatoes" in paragraph (b), for the words "in accordance" to the end substitute—
 ", stating that the potatoes were certified as pre-basic seed potatoes and the grade, in accordance with—

- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith paragraffau 1, 5, 6, 9, 10 ac 11 o Ran 1 o Atodlen 2;
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 18(f) o'r Gyfarwyddeb;"
- (l) yn lle'r diffiniad o "tatws hadyd o amrywogaeth gadwraeth" rhodder—
"ystyr "tatws hadyd o amrywogaeth gadwraeth" (*"seed potatoes of a conservation variety"*) yw unrhyw amrywogaeth o datws hadyd a restrir fel amrywogaeth gadwraeth yn y Rhestr Genedlaethol;"
- (m) yn y diffiniad o "tatws hadyd a gynhyrchir y tu allan i Gymru", ym mharagraff (b) hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig";
- (n) ar ôl y diffiniad o "y Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol" mewnosoder—
"ystyr "y rheoliadau tatws hadyd" (*"the seed potatoes regulations"*) yw—
(a) o ran Lloegr, Reoliadau Tatws Hadyd (Lloegr) 2015;
(b) o ran yr Alban, Reoliadau Tatws Hadyd (Yr Alban) 2015(1);
(c) o ran Gogledd Iwerddon, Reoliadau Tatws Hadyd (Gogledd Iwerddon) 2016(2);
ac ystyr "y rheoliadau tatws hadyd perthnasol" (*"the relevant seed potatoes regulations"*), o ran unrhyw ran gyfansoddol o'r Deyrnas Unedig, yw'r rheoliadau tatws hadyd sy'n gymwys o ran y rhan honno;"
- (o) yn y diffiniad o "tatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu", ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o "yn unol" hyd at y diwedd rhodder—
" yn unol ag—
- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to paragraphs 1, 5, 6, 9, 10 and 11 of Part 1 of Schedule 2;
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 18(f) of the Directive;"
- (l) for the definition of "seed potatoes of a conservation variety" substitute—
"seed potatoes of a conservation variety" (*"tatws hadyd o amrywogaeth gadwraeth"*) means any variety of seed potatoes listed as a conservation variety in the National List;"
- (m) in the definition of "seed potatoes produced outside Wales" in paragraph (b) omit "other than the United Kingdom";
- (n) after the definition of "seed potatoes produced outside Wales" insert—
"the seed potatoes regulations" (*"y rheoliadau tatws hadyd"*) means—
(a) in relation to England, the Seed Potatoes (England) Regulations 2015;
(b) in relation to Scotland, the Seed Potatoes (Scotland) Regulations 2015(1);
(c) in relation to Northern Ireland, the Seed Potatoes Regulations (Northern Ireland) 2016(2);
and "the relevant seed potatoes regulations" (*"y rheoliadau tatws hadyd perthnasol"*), in relation to any constituent part of the United Kingdom, means the seed potatoes regulations applicable in relation to that part;"
- (o) in the definition of "test and trial seed potatoes" in paragraph (b), for the words from "accordance with Article 9 of the Decision" substitute—
" accordance with—

(1) O.S.A. 2015/395, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2016/68, 434.

(2) Rh. St. 2016 Rhif 190, a ddiwygiwyd gan Rh. St. 2017 Rhif 155.

(1) S.S.I. 2015/395, amended by S.S.I. 2016/68, 434.

(2) S.R. 2016 No. 190, amended by S.R. 2017 No. 155.

- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith paragraffau 4, 5, 8, 9, 10 ac 11(c) o Ran 1 o Atodlen 2;
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 9 o'r Penderfyniad”;
- (p) yn lle'r diffiniad o “gradd yr Undeb” rhodder—
“ystyr “gradd yr Undeb” (*“Union grade”*), mewn perthynas â thatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, yw—
- (a) yn achos tatws hadyd cyn-sylfaenol, gradd PBTC yr Undeb neu radd PB yr Undeb, y nodir yr amodau gofynnol ar eu cyfer yn Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwyddeb 2014/21/EU(1) ac Atodiad 1 iddi;
- (b) yn achos tatws hadyd sylfaenol, gradd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb, y nodir yr amodau gofynnol ar eu cyfer yn Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 2014/20/EU(2) ac Atodiad 1 iddi;
- (c) yn achos tatws hadyd ardystiedig, gradd A yr Undeb neu radd B yr Undeb, y nodir yr amodau gofynnol ar eu cyfer yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2014/20/EU ac Atodiad 2 iddi;”;
- (q) ar ôl y diffiniad o “gradd” mewnosoder—
“ystyr “gradd y Deyrnas Unedig” (*“United Kingdom grade”*) yw—
- (a) o ran tatws hadyd a gynhyrchir yng Nghymru, gradd y Deyrnas Unedig a bennir yn unol ag Atodlen 4 wrth ardystio, sef—
- (i) yn achos tatws hadyd cyn-sylfaenol, gradd PBTC y DU neu radd PB y DU;
- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to paragraphs 4, 5, 8, 9, 10 and 11(c) of Part 1 of Schedule 2;
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 9 of the Decision”;
- (p) for the definition of “Union grade” substitute—
““Union grade” (*“gradd yr Undeb”*) means, in relation to seed potatoes produced in a member State or Switzerland —
- (a) in the case of pre-basic seed potatoes, Union grade PBTC or Union grade PB, the minimum conditions for which are set out in Articles 2 and 3 of, and Annex 1 to, Directive 2014/21/EU(1);
- (b) in the case of basic seed potatoes, Union grade S, Union grade SE, or Union Grade E, the minimum conditions for which are set out in Article 1 of, and Annex 1 to, Directive 2014/20/EU(2);
- (c) in the case of certified seed potatoes, Union grade A or Union grade B, the minimum conditions for which are set out in Article 2 of, and Annex 2 to, Directive 2014/20/EU;”;
- (q) after the definition of “Union grade” insert—
““United Kingdom grade” (*“gradd y Deyrnas Unedig”*) means—
- (a) in relation to seed potatoes produced in Wales, the United Kingdom grade determined in accordance with Schedule 4 during certification, this being—
- (i) in the case of pre-basic seed potatoes, UK grade PBTC or UK grade PB;

(1) OJ Rhif L 38, 7.2.2014, t. 39.

(2) OJ Rhif L 38, 7.2.2014, t. 32.

(1) OJ No L 38, 7.2.2014, p. 39.

(2) OJ No L 38, 7.2.2014, p. 32.

- (ii) yn achos tatws hadyd sylfaenol, gradd S y DU, gradd SE y DU neu radd E y DU;
- (iii) yn achos tatws hadyd ardystiedig, gradd A y DU neu radd B y DU;
- (b) o ran tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig ac eithrio yng Nghymru, gradd y Deyrnas Unedig a bennir yn unol â'r rheoliadau tatws hadyd perthnasol;”;
- (r) ym mharagraff 2, hepgorer y geiriau o “yn unol” hyd at y diwedd;
- (s) hepgorer paragraff (4).
- (3) Yn rheoliad 4, yn lle “Undeb Ewropeaidd” rhodder “Deyrnas Unedig”.
- (4) Yn rheoliad 5, ym mharagraff 3(b), yn lle'r geiriau o “yn unol” hyd at y diwedd rhodder—
- “yn unol ag—
- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith rheoliad 8;
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 6(1)(a) o'r Gyfarwyddeb;”;
- (5) Yn rheoliad 6—
- (a) ym mharagraff (3), yn lle'r geiriau o'r dechrau hyd at “Gyfarwyddeb 2008/62/EC” rhodder “Pan fyddai'r symiau yn debygol o fod yn fwy na'r symiau a bennir yn Erthygl 14 o Gyfarwyddeb 2008/62/EC(1) fel arall”;
- (b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—
- “(3A) At ddibenion paragraff (3), mae Erthygl 14 o Gyfarwyddeb 2008/62/EC i'w darllen fel pe bai—
- (a) yn y paragraff cyntaf, yn y frawddeg gyntaf—
- (i) y geiriau “Each Member State shall ensure that” wedi eu hepgor;
- (ii) in the case of basic seed potatoes, UK grade S, UK grade SE or UK grade E;
- (iii) in the case of certified seed potatoes, UK grade A or UK grade B;
- (b) in relation to seed potatoes produced in the United Kingdom other than in Wales, the United Kingdom grade determined in accordance with the relevant seed potatoes regulations;”;
- (r) in paragraph (2), omit the words from “in accordance” to the end;
- (s) omit paragraph (4).
- (3) In regulation 4, for “European Union” substitute “United Kingdom”.
- (4) In regulation 5, in paragraph 3(b), for the words from “accordance with”—
- “accordance with—
- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to regulation 8;
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 6(1)(a) of the Directive”;
- (5) In regulation 6—
- (a) in paragraph (3), for the words from the beginning to “Directive 2008/62/EC” substitute “Where the quantities specified in Article 14 of Directive 2008/62/EC(1) would otherwise be likely to be exceeded”;
- (b) after paragraph (3) insert—
- “(3A) For the purposes of paragraph (3), Article 14 of Directive 2008/62/EC is to be read as if—
- (a) in the first paragraph, in the first sentence—
- (i) the words “Each Member State shall ensure that” were omitted;

- (ii) y geiriau “may not exceed” wedi eu rhoi yn lle “does not exceed”;
- (iii) cyfeiriad at “the United Kingdom” yn cael ei roi yn lle’r cyfeiriad at “that Member State”;
- (b) yn yr ail baragraff—
- (i) yn y frawddeg gyntaf, cyfeiriad at “the United Kingdom” yn cael ei roi yn lle’r cyfeiriad at “each Member State”;
- (ii) cyfeiriadau at “the United Kingdom” yn cael eu rhoi yn lle’r cyfeiriadau at “the Member State”, yn y ddau le y maent yn digwydd”.”.
- (6) Yn rheoliad 8(2), yn lle’r geiriau o “y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid” hyd at y diwedd rhodder—
- “__
- (a) y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid;
- (b) y rheoliadau GMO; neu
- (c) cyn y diwrnod ymadael, Ran C o’r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol”.
- (7) Yn rheoliad 9—
- (a) ym mharagraff (2)—
- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “sy’n fwy nag a ganiateir gan Erthygl 7 o’r Penderfyniad” rhodder “sy’n fwy na pha un bynnag sydd fwyaf o 0.1% o nifer blynyddol y tatws hadyd a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw swm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ddigonol er mwyn hau 10 hectar”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle’r geiriau o “y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid” hyd at y diwedd rhodder—
- “__
- (i) y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid;
- (ii) y rheoliadau GMO; neu
- (iii) cyn y diwrnod ymadael, Ran C o’r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol”;
- (b) ym mharagraff (6)(b), hepgorer “neu yn y Catalog Cyffredin”;
- (c) ym mharagraff (8)(b), yn lle “Aelod-wladwriaeth” rhodder “wlad”.
- (8) Yn rheoliad 11(3)(b), yn lle’r geiriau o “yn unol â’r Gyfarwyddeb” hyd at y diwedd rhodder—
- “, mewn cysylltiad â marchnata tatws o’r categori hwnnw, yn unol ag—
- (ii) for the words “does not exceed” there were substituted “may not exceed”;
- (iii) for the reference to “that Member State” there were substituted “the United Kingdom”;
- (b) in the second paragraph—
- (i) in the first sentence, for the reference to “each Member State” there were substituted “the United Kingdom”;
- (ii) for the references to “the Member State” in both places there were substituted “the United Kingdom”.
- (6) In regulation 8(2), for the words from “the Food and Feed Regulation” to the end substitute—
- “__
- (a) the Food and Feed Regulation;
- (b) the GMO regulations; or
- (c) before exit day, Part C of the Deliberate Release Directive”.
- (7) In regulation 9—
- (a) in paragraph (2)—
- (i) in sub-paragraph (a), for “in excess of that permitted by Article 7 of the Decision” substitute “which exceeds the greater of 0.1% of the annual number of seed potatoes used in the United Kingdom or such quantity as the Welsh Ministers considers is sufficient to sow 10 hectares”;
- (ii) in sub-paragraph (b), for the words from “the Food and Feed Regulation” to the end substitute—
- “__
- (i) the Food and Feed Regulation;
- (ii) the GMO regulations; or
- (iii) before exit day, Part C of the Deliberate Release Directive”;
- (b) in paragraph (6)(b), omit “or the Common Catalogue”;
- (c) in paragraph (8)(b), for “member State” substitute “country”.
- (8) In regulation 11(3)(b), for the words from “pursuant to the Directive” to the end substitute—
- “, in respect of the marketing of potatoes of that category, pursuant to—

- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith is-baragraff (a);
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, y Gyfarwyddeb”.

(9) Yn rheoliad 14(2)(b), yn lle’r geiriau o “yn unol ag” hyd at y diwedd rhodder—

“yn unol ag—

- (i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, y rheoliadau tatws hadyd perthnasol;
- (ii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Tiriogaeth Ddibynnol y Goron, ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod ei heffaith yn cyfateb i effaith is-baragraff (a);
- (iii) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, Erthygl 11(1) o’r Gyfarwyddeb”.

(10) Yn rheoliad 16—

- (a) yn y pennawd, yn lle “o’r tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “a fewnforir i Gymru”;
- (b) ailrifir y testun presennol yn baragraff (1);
- (c) ym mharagraff (1)—
 - (i) ar y dechrau mewnosoder y geiriau “Yn ddarostyngedig i baragraff (2),”;
 - (ii) hepgorer y geiriau “o wlad y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd”;
- (d) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

“(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy’n marchnata mwy na 2 gilogram o datws hadyd sydd wedi eu mewnforio i Gymru o—

 - (a) lle sydd o fewn Ynysoedd Prydain;
 - (b) Aelod-wladwriaeth neu’r Swistir.”

(11) Ar ôl rheoliad 23 mewnosoder—

- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to sub-paragraph (a);
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, the Directive”.

(9) In regulation 14(2)(b), for the words from “accordance with” to the end substitute—

“accordance with—

- (i) in the case of seed potatoes produced in the United Kingdom, the relevant seed potatoes regulations;
- (ii) in the case of seed potatoes produced in a Crown Dependency, legislation recognised by the Welsh Ministers as having equivalent effect to sub-paragraph (a);
- (iii) in the case of seed potatoes produced in a member State or Switzerland, Article 11(1) of the Directive”.

(10) In regulation 16—

- (a) in the heading, for “from outside the European Union” substitute “imported into Wales”;
- (b) renumber the existing text as paragraph (1);
- (c) in paragraph (1)—
 - (i) at the start insert the words “Subject to paragraph (2),”;
 - (ii) omit the words “from a country outside the European Union”;
- (d) after paragraph (1), insert—

“(2) Paragraph (1) does not apply to any person marketing more than 2 kilograms of seed potatoes that have been imported into Wales from—

 - (a) within the British Islands;
 - (b) a member state or Switzerland.”.

(11) After regulation 23 insert—

“Darpariaeth drosiannol ar gyfer labeli swyddogol ar y diwrnod ymadael

23A. Mae label a ragaraffwyd cyn y diwrnod ymadael a oedd yn label swyddogol at ddibenion y Rheoliadau hyn ar y dyddiad y'i hargraffwyd i'w drin fel label swyddogol at ddibenion unrhyw ddefnydd o'r label hwnnw cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd.”

(12) Yn Atodlen 1 ym mharagraffau 5, 6, 8 a 10, yn lle “yr Undeb”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “y DU”.

(13) Yn Atodlen 2—

- (a) ym mharagraff 6(a), yn lle “Aelod-wladwriaeth” rhodder “wlad”;
- (b) ym mharagraff 7—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “EU” rhodder “UK”;
 - (ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle “Aelod-wladwriaeth” rhodder “wlad”;
- (c) ym mharagraff 8(b)(i), yn lle “Aelod-wladwriaeth” rhodder “wlad”;
- (d) ym mharagraff 9—
 - (i) yn lle “sy'n ofynnol gan” rhodder “a bennir yn”;
 - (ii) ar y diwedd, mewnosoder “sydd i'w ddarllen fel pe bai, ym mhwynt (a), “UK” wedi ei roi yn lle “EC””;
- (e) ym mharagraff 11, yn lle “yr Undeb”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “y DU”.

(14) Yn Atodlen 3—

- (a) ym mhenawdau Rhannau 1 a 2, yn lle “yr Undeb” rhodder “y DU”;
- (b) yn y tabl yn Rhan 3, yng ngholofn 2, yn lle “yr Undeb”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “y DU”.

(15) Mae Atodlen 4 wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau 15 i 17.

(16) Yn Rhan 1—

- (a) yn y paragraff sy'n dod o flaen Tabl 1, yn lle “Undeb” rhodder “Deyrnas Unedig”;
- (b) yn Nhabl 1—
 - (i) ym mhennawd colofn 1, yn lle “yr Undeb” rhodder “y DU”;
 - (ii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “PB”, yng ngholofn 2, ym mharagraff (1)(b), yn lle “gradd PB yr Undeb” rhodder “gradd PB y DU neu radd PB yr Undeb”.

“Transitional provision for official labels on exit day

23A. A label pre-printed before exit day which at the date on which it was printed was an official label for the purposes of these Regulations is to be treated as an official label for the purposes of any use of that label before the end of the period of one year beginning with the day after the day on which exit day falls.”.

(12) In Schedule 1 in paragraphs 5, 6, 8 and 10, for “Union”, in each place where it occurs, substitute “UK”.

(13) In Schedule 2—

- (a) in paragraph 6(a), for “member State” substitute “country”;
- (b) in paragraph 7—
 - (i) in sub-paragraph (a), for “EU” substitute “UK”;
 - (ii) in sub-paragraph (b)(i), for “member State” substitute “country”;
- (c) in paragraph 8(b)(i), for “member State” substitute “country”;
- (d) in paragraph 9—
 - (i) for “required by” substitute “specified in”;
 - (ii) at the end, insert “read as if, in point (a), for “EC” there were substituted “UK””;
- (e) in paragraph 11, for “Union”, in each place where it occurs, substitute “UK”.

(14) In Schedule 3—

- (a) in the headings to Parts 1 and 2 for “Union” substitute “UK”;
- (b) in the table in Part 3, in column 2, for “Union”, in each place where it occurs, substitute “UK”.

(15) Schedule 4 is amended in accordance with paragraphs 15 to 17.

(16) In Part 1—

- (a) in the paragraph preceding Table 1, for “Union” substitute “United Kingdom”;
- (b) in Table 1—
 - (i) in the heading to column 1, for “Union” substitute “UK”;
 - (ii) in the row relating to grade “PB”, in column 2, in paragraph (1)(b), after “graded as” insert “UK grade PB”.

(17) Yn Rhan 2—

- (a) yn y paragraff sy'n dod o flaen Tabl 2, yn lle “Undeb” rhodder “Deyrnas Unedig”;
- (b) yn Nhabl 2—
 - (i) ym mhennawd colofn 1, yn lle “yr Undeb” rhodder “y DU”;
 - (ii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “S”, yng ngholofn 2, yn lle “radd S yr Undeb” rhodder “radd S y DU neu radd S yr Undeb”;
 - (iii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “SE”, yng ngholofn 2, yn lle “radd S yr Undeb neu'n radd SE yr Undeb” rhodder “radd S y DU, gradd SE y DU neu radd SE yr Undeb”;
 - (iv) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “E”, yng ngholofn 2—
 - (aa) ym mharagraff (1)(a), yn lle “radd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb” rhodder “radd S y DU, gradd SE y DU, gradd S yr Undeb neu radd SE yr Undeb”;
 - (bb) ym mharagraff (1)(b), yn lle “radd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb” rhodder “radd S y DU, gradd SE y DU, gradd E y DU, gradd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb”.

(18) Yn Rhan 3 yn Nhabl 3—

- (a) ym mhennawd colofn 1, yn lle “yr Undeb” rhodder “y DU”;
- (b) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “A”, yng ngholofn 2
yn lle “radd A yr Undeb” rhodder “radd A y DU neu radd A yr Undeb”;
- (c) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd “B”, yng ngholofn 2—
 - (i) yn lle “radd A yr Undeb” rhodder “radd A y DU neu radd A yr Undeb”;
 - (ii) yn lle “radd B yr Undeb” rhodder “radd B y DU neu radd B yr Undeb”.

(19) Ym mhennawd Atodlen 6, yn lle “ac eithrio Aelod-wladwriaeth” rhodder “y tu allan i Ynysoedd Prydain”.

(17) In Part 2—

- (a) in the paragraph preceding Table 2, for “Union” substitute “United Kingdom”;
- (b) in Table 2—
 - (i) in the heading to column 1, for “Union” substitute “UK”;
 - (ii) in the row relating to grade “S”, in column 2, after “graded as” insert “UK grade S or”;
 - (iii) in the row relating to grade “SE”, in column 2, after the word “graded” insert “ “UK grade S, UK grade SE,”;
 - (iv) in the row relating to grade “E”, in column 2—
 - (aa) in paragraph (1)(a), after “graded as” insert “UK grade S, UK grade SE,”;
 - (bb) in paragraph (1)(b),, after “graded as” insert “UK grade S, UK grade SE, UK grade E”.

(18) In Part 3—

- (a) in Table 3—
 - (i) in the heading to column 1, for “Union” substitute “UK”;
 - (ii) in the row relating to grade “A”, in column 2—
 - (aa) after “graded” insert “as UK grade A or”;
 - (iii) in the row relating to grade “B”, in column 2—
 - (aa) after the first instance of “graded” insert “ as UK grade A or”;
 - (bb) after the second instance of “graded” insert “ as UK grade B or”.

(19) In the heading to Schedule 6, for “other than a member state” substitute “outside the British Islands”.

Marchnata tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir

3.—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 fel y'u diwygir gan reoliad 2 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) yn y diffiniad o “tatws hadyd sylfaenol”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (b) yn y diffiniad o “ardystio”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (c) yn y diffiniad o “tatws hadyd ardystiedig”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (d) yn y diffiniad o “dogfen swyddogol”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (e) yn y diffiniad o “label swyddogol”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (f) yn y diffiniad o “tatws hadyd cyn-sylfaenol”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);
- (g) yn y diffiniad o “tatws hadyd a gynhyrchir y tu allan i Gymru”, hepgorer paragraffau (b) ac (c);
- (h) yn y diffiniad o “tatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu”, ym mharagraff (b) hepgorer is-baragraff (iii);

(3) Yn rheoliad 11(3)(b), hepgorer is-baragraff (iii);

(4) Yn rheoliad 14(2)(b), hepgorer is-baragraff (iii);

(5) Yn rheoliad 16, hepgorer paragraff (2)(b).

(6) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3(a) hepgorer “neu yn y Catalog Cyffredin”.

Marchnata tatws hadyd a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir: darpariaeth arbed

4.—(1) Yn achos tatws hadyd—

- (a) a gynhyrchir mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir, a
 - (b) a fewnforir i Gymru cyn i reoliad 3 ddod i rym,
- mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 yn parhau i gael effaith fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 mewn grym.

Marketing of seed potatoes produced in a member State or Switzerland

3.—(1) The Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 as amended by regulation 2 are amended as follows.

(2) In regulation 2—

- (a) in the definition of “basic seed potatoes”, in paragraph (b), omit sub-paragraph (iii);
- (b) in the definition of “certification”, in paragraph (b) omit sub-paragraph (iii);
- (c) in the definition of “certified seed potatoes”, in paragraph (b) omit sub-paragraph (iii);
- (d) in the definition of “official document”, in paragraph (b) omit subparagraph (iii);
- (e) in the definition of “official label”, in paragraph (b), omit sub-paragraph (iii);
- (f) in the definition of “pre-basic seed potatoes” in paragraph (b), omit sub-paragraph (iii);
- (g) in the definition of “seed potatoes produced outside Wales” omit paragraphs (b) and (c);
- (h) in the definition of “test and trial seed potatoes”, in paragraph (b), omit subparagraph (iii);

(3) In regulation 11(3)(b), omit sub-paragraph (iii);

(4) In regulation 14(2)(b), omit sub-paragraph (iii);

(5) In regulation 16, omit paragraph (2)(b).

(6) In Schedule 1, in paragraph 3(a) omit “or the Common Catalogue”.

Marketing of seed potatoes produced in a member State or Switzerland: saving provision

4.—(1) In the case of seed potatoes—

- (a) produced in a member State or Switzerland, and
 - (b) imported into Wales before the coming into force of regulation 3,
- the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 continue to have effect as if the amendments made by regulation 3 were not in force.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2019 ar 6pm

©Hawlffraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers
26 March 2019 at 6pm

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W201903291008 04/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/738>

ISBN 978-0-348-20409-4



9 780348 204094